Jane Hutt AC/AM
Minster for Business and Budget
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf / Our ref:

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mawrth 2010

Annwyl Dafydd

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2010

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod angen torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau y daw'r Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2010 i rym yng Nghymru. Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mawrth 2010 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

Mae angen y Rheoliadau hyn yn dilyn yr adolygiad o Ran IX o'r Tariff Cyffuriau (y ddogfen ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n amlinellu telerau gwasanaeth contractwyr gwasanaethau fferyllol y GIG).

Mae'r adolygiad wedi bod yn mynd rhagddo ers sawl blwyddyn, ac mae pob rhanddeiliad yn derbyn bod natur dechnegol y Tariff Cyffuriau yn golygu bod yn rhaid i unrhyw newidiadau a wneir iddo fod yn gymwys i Gymru a Lloegr. Hysbyswyd y rhanddeiliaid yng Nghymru ynghylch yr adolygiad a'r bwriad i gadw Tariff Cyffuriau ar y cyd â Lloegr, a rhoddwyd cyfle iddynt fynegi barn ar y ddeddfwriaeth ddrafft.

Mae'r trefniadau newydd yn golygu bod gofyn cael pecyn o ddiwygiadau a Chyfarwyddiadau newydd i Reoliadau Gwasanaethau Fferyllol y GIG 1992 a fydd yn ymddangos yn y Tariff Cyffuriau ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr.
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr a chyflenwyr offer yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 ("y prif Reoliadau"), ac yn darparu ar gyfer gwasanaethau hanfodol newydd gan gynnwys cyflenwad mewn argyfwng ar gais y rhagnodydd, gwasanaeth dosbarthu i'r cartref, cyflenwad o sychwyr a bagiau gwaredu a chyngor arbenigol. Bydd contractwyr offer hefyd yn gallu cynnig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
correspondence.jane.hutt@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%) *Printed on 100% recycled paper*

gwasanaeth amlweinyddu a bydd gofyn iddynt weithredu system llywodraethu glinigol yn yr un modd â fferyllfeydd.

Gellir ond gwneud Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Offer) (Cymru) 2010 ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym. Bydd y rhain yn gwneud darpariaeth i gontractwyr offer a fferyllfeydd perthnasol allu cynnig gwasanaethau uwch newydd. Mae'r gwasanaethau uwch yn cynnwys addasu offer stoma ac adolygu'r defnydd a wneir o'r offer.

Mae angen gwneud newidiadau i'r Tariff Cyffuriau er mwyn hysbysu darparwyr gwasanaethau am y trefniadau newydd hyn ac am y ffioedd a'r lwfansau newydd y cytunwyd arnynt eisoes. Bydd cyfnod pontio o naw mis o 1 Ebrill 2010 ymlaen yn rhoi digon o amser i fferyllfeydd a chontractwyr offer sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio â'r telerau gwasanaeth newydd erbyn 31 Rhagfyr 2010.

Er mwyn sicrhau bod darpariaeth gyfartal yng Nghymru wrth baratoi'r Rheoliadau hyn, rydym wedi gorfod aros i weld y drafftiau terfynol o'r Rheoliadau Saesneg gan yr Adran Iechyd. Bu oedi wrth baratoi'r Rheoliadau hyn oherwydd gwaith ychwanegol yn yr Adran Iechyd yn ymwneud â'r pandemig ffliw.

Wedyn, cafwyd anawsterau eraill wrth ddrafftio'r Rheoliadau gan fod gwahaniaethau mawr rhwng y prif reoliadau ar y materion hyn yn Lloegr ac yng Nghymru. Yn Lloegr, gwnaed newidiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Lloegr) 2005 ac felly bu'n rhaid gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru a Lloegr) (Gwasanaethau Fferyllol) 1992. Ond ni wnaeth Cymru ddiwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 ar y materion hyn ar yr un pryd â Lloegr yn 2005. Yn dilyn hyn, rhoddwyd cyfle pellach i'r carfannau perthnasol, gan gynnwys contractwyr, Byrddau Iechyd Lleol, Atebion Iechyd Cymru a'r Awdurdod Gwasanaethau Busnes, fynegi barn ar yr offeryn drafft, a gwnaed mân newidiadau yn sgil hyn.

Mae'n hanfodol bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfartal yng Nghymru ac yn Lloegr a bod y Tariff Cyffuriau ar y cyd yn parhau. Bydd methu â bodloni'r meini prawf hyn yn cael effaith andwyol ar ein hymdrechion i foderneiddio gwasanaethau, a bydd yn golygu telerau gwasanaeth gwahanol ar gyfer contractwyr yng Nghymru a lefel is o wasanaeth i gleifion yng Nghymru o gymharu â chleifion yn Lloegr. Yn ogystal, mae rhanddeiliaid yng Nghymru yn disgwyl y bydd y trefniadau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill.

Am y rhesymau hyn, ystyrir bod angen torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau allu dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

Cynhaliwyd trafodaethau â Fferylliaeth Gymunedol Cymru a'r Contractwyr Offer, ac maent yn cefnogi'r trefniadau newydd.

Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau hyn ac mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi. Gosodwyd y rhain, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn mynd at Janet Ryder, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, a Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Jane Hutt

Jane Hutt AC
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb